Ysgrifennu penawdau ar gyfer cynnwys golygyddol

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â llunio penawdau, llinell clawr a theitlau eraill caiff eu defnyddio er mwyn denu sylw darllenwyr at gynnwys golygyddol mewn papurau newydd, cylchgronau a gwefannau. Hefyd er mwyn helpu darllenwyr i ddarllen y deunydd a dod o hyd i'r rhannau maen nhw'n dymuno eu darllen.

Mae'r Safon hon yn ymwneud ag adnabod pryd ddylid defnyddio penawdau gwahanol a beth ddylen nhw ei gynnwys, sut fydden nhw'n ymddangos yn dibynnu ar y llwyfan neu ddyfais caiff eu defnyddio i'w ddarllen, gan ofalu eu bod ar ffurf neu arddull sy'n gweddu i'r mudiad neu frand y cân nhw eu cynhyrchu ar eu cyfer a bodloni unrhyw ofynion cyfreithiol neu foesegol.

Mae'r Safon hon yn berthnasol ar gyfer pawb sy'n ysgrifennu penawdau ar gyfer cynnwys golygyddol.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. adnabod pa benawdau, llinellau clawr, penawdau cymdeithasol, is-benawdau, cyflwyniadau ac is-deitlau sydd fwyaf priodol ar gyfer y cynulleidfaoedd, brand, arddull a chynnwys eich deunydd
2. ysgrifennu penawdau sy'n adlewyrchu triniaeth y deunydd ategol, gan gyfleu'r prif bwyntiau yn eglur a chywir
3. ysgrifennu penawdau sy'n ymwneud mwy gyda'r cynulleidfaoedd
4. gwirio bod penawdau yn hyd, siâp a maint addas ar gyfer y cyfrwng maen nhw'n ymddangos ynddo
5. cydymffurfio gydag arddull y mudiad neu frand a'r safonau o ran gramadeg, sillafu ac atalnodi sy'n ofynnol gan eich mudiad
6. asesu effaith eich penawdau ar straeon a lluniau cyfagos ar adegau priodol
7. cydymffurfio gyda chyfreithiau, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol wrth ysgrifennu penawdau

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. gofynion y mudiad o ran cynnwys, triniaeth a ffurf
2. y gynulleidfa a'u priodweddau a disgwyliadau
3. ffurfiau, defnyddiau, gwahaniaethau, buddion ac anfanteision y gwahanol fathau o deitlau fel penawdau, llinellau clawr, penawdau cymdeithasol, is-benawdau, cyflwyniadau ac is-deitlau
4. arddull y mudiad neu frand o ran cynhyrchu deunydd, gan gynnwys gramadeg, sillafu, atalnodi, geirfa, ffurf, arddull a llunio stori.
5. sut fydd y dudalen derfynol neu gynllun darllen yn ymddangos yn ôl y sianel, llwyfan neu ddyfais rydych yn ei ddefnyddio i fwrw golwg arno
6. y deunydd ysgrifenedig fydd y penawdau'n cyd-fynd gydag o
7. y defnydd o eiriau allweddol ac optimeiddio peiriant chwilio
8. egwyddorion cyhoeddi, dylunio brand a theipograffeg
9. y gofynion cyfreithiol a chodau diwydiant sy'n berthnasol i ysgrifennu penawdau a chyhoeddi deunydd

Ysgrifennu penawdau ar gyfer cynnwys golygyddol

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Fersiwn rhif	2
Dyddiad cymeradwyo	Mawrth 2019
Indicative Review Date	Mawrth 2022
Dilysrwydd	ArHynOBryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	ScreenSkills
RCU gwreiddiol	SKSJ15
Galwedigaethau perthnasol	Cyfryngau a chyfathrebu; Gweithwyr Proffesiynol Cyswllt Cyfryngau
Cyfres/Set	Newyddiaduriaeth
Geiriau Allweddol	Penawdau, Llinellau Clawr, Newyddiaduriaeth